PWYLLGOR PENODIADAU - PENNAETH CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 26 MAI 2021

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Wild(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Hopkins, Jones-Pritchard, K Jones a/ac Merry |

7 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

8 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

9 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod ar 15 Mai 2021 fel cofnod cywir.

10 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes ganlynol ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod:-

- Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n berthnasol i ymgeisydd yn dod yn gyflogai'r Awdurdod; a

Pharagraff 13 - Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

11 : PENODI PENNAETH CYNLLUNIO

Cafodd y Pwyllgor ei ymgynnull i gyfweld â dau ymgeisydd a gyflwynwyd gan y Pwyllgor ar 21 Mehefin 2021 ar ôl ystyried canlyniadau'r Cyfweliadau Technegol ac Ymddygiadol/Arweinyddiaeth.

Fel rhan o'r broses gyfweld, gwahoddwyd yr ymgeiswyr i wneud cyflwyniad 10 munud a rhoddwyd cyfle i'r Aelodau holi pob ymgeisydd am y cyflwyniad. Dilynwyd hyn gan gwestiynau ffurfiol a dau gwestiwn gorfodol.

Ar ddiwedd y broses gyfweld, trafododd y Pwyllgor berfformiad pob ymgeisydd yn erbyn y cymwyseddau a'r ymatebion enghreifftiol.

Cytunodd y Pwyllgor eu bod yn gallu penodi rhywun i'r swydd Pennaeth Cynllunio.

PENDERFYNWYD -

- Penodi Simon Gilbert yn Bennaeth Cynllunio yn unol â'r Radd a'r Cyflog a hysbysebwyd ar gyfer y swydd; a

bod y broses ddethol wedi'i chynnal yn unol â'r broses Benodi ac roedd pob ymgeisydd wedi cael ei drin yn gyfartal ac yn deg yn ystod y broses. Penodwyd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ôl teilyngdod.